**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf: P-05-925
Ein cyf: KW/00128/20

Janet Finch-Saunders AC
Y Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddPetitions@cynulliad.cymru

4 Chwefror 2020

Annwyl Janet

**Deiseb P-05-925 Peidio â gadael Cymru tu ôl - addysgu llesiant mislifol mewn ysgolion**

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 24 Ionawr, ynghylch y Ddeiseb uchod, sy'n cael ei hystyried gan y Pwyllgor.

Mae'r cyfnod cydweithio i fireinio'r cwricwlwm newydd wedi dod i ben, a chyhoeddais y canllawiau diwygiedig ar gyfer Cwricwlwm i Gymru ar 28 Ionawr. Darparwyd adborth o amrywiaeth eang o ffynonellau, a dyma oedd sail y gwaith mireinio a wnaed yn yr hydref.

Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynnwys datganiad o'r hyn sy'n bwysig, sy'n cynnwys gofal personol, hylendid a diogelwch rhag haint. Y bwriad yw cefnogi dysgwyr i ddatblygu arferion cadarnhaol ar sail gwybodaeth, fel y gallant ofalu amdanyn nhw'u hunain a pharchu eu hunain. Mae'r arferion hyn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y dysgwyr o'u hunan-werth, eu hiechyd meddyliol ac emosiynol a'u lefelau egni. Bydd y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn rhan orfodol o gwricwlwm ysgol.

Mae'r canllawiau ar gyfer y datganiad hwn o'r hyn sy'n bwysig yn nodi y dylai dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o amrywiol gyflyrau a all effeithio ar eu hiechyd a'u lles. Dylent hefyd ddysgu sut i ymateb i'r rhain a/neu eu rheoli, yn enwedig wrth iddynt dyfu. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn datblygu'r ddealltwriaeth hon o amrywiol gyflyrau sy'n gallu effeithio ar eu bywydau nhw, a bywydau eraill, a'r gallu i ymateb iddynt. Mae datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o iechyd a lles eraill hefyd yn rhan allweddol o'r Maes hwn, ac felly mae hyn yn elfen ddysgu sy'n berthnasol i bob dysgwr, beth bynnag eu rhyw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Bydd ein canllawiau newydd ar y cwricwlwm yn caniatáu i bob ysgol ddechrau'r daith o gynllunio eu cwricwlwm eu hunain sy'n bodloni eu hanghenion eu hunain o fewn dull gweithredu cenedlaethol sy'n sicrhau cysondeb.

Mae fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn rhoi'r cyfle i bob ysgol yng Nghymru gynllunio eu cwricwlwm eu hunain. Mae'n annog ysgolion i greu eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer eu dysgwyr yng nghyd-destun y Pedwar Diben a'r dysgu a ddiffinnir ar lefel genedlaethol.

Er nad yw canllawiau'r cwricwlwm yn cynnwys rhestr hir o bynciau unigol, mae'n nodi'r hyn y dylai ysgolion ei ystyried wrth gynllunio eu cwricwlwm, a'r disgwyliadau bras gan ddysgwyr.  Fel y nodais yn fy natganiad llafar ar Ionawr 28, wrth inni edrych ymlaen at y cyfnod gweithredu, bydd swyddogion yn gweithio gydag ymarferwyr i nodi blaenoriaethau o ran datblygu adnoddau, er mwyn sicrhau bod ystod o ddeunydd ategol ar gael erbyn 2022 i helpu ymarferwyr i ddatblygu eu cwricwlwm eu hunain.

Caiff cynllun gweithredu'r cwricwlwm ei gyhoeddi ar ôl y Pasg, a bydd yn disgrifio'n glir sut y bydd yn gweithio ar sail lle dylai ysgolion fod yn canolbwyntio eu hymdrechion ar wahanol adegau hyd at 2022 a sut y cânt eu cefnogi i wneud hyn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg